





ffilm

CYMRU WALES

# ADRODDIAD BLYNYDDOL 2015-16



# CYNNWYS


04 GAIR O GROESO GAN Y CADEIRYDD

06 CRYNODEB GWEITHREDOL

08 **DATBLYGU**

10 **BFI NET.WORK** CYMRU

12 CYNHYRCHIAD

14 **MAGNIFIER & CHYMORTH I GWMNÏAU**

16 CYNULLEIDFAOEDD

18 ADDYSG

20 DYFARNIADAU CYLLIDO | CYNHYRCHIAD

21 DYFARNIADAU CYLLIDO | DATBLYGU

22 DYFARNIADAU CYLLIDO | GORWLEION

24 DYFARNIADAU CYLLIDO | SINEMÂU

25 DYFARNIADAU CYLLIDO | GWYLIAU & ADDYSG

26 CRYNODEB ARIANNOL

28 EIN TÎM




# GAIR O GROESO GAN Y CADEIRYDD

Yn 2016, dathlwyd deng mlwyddiant Ffilm Cymru Wales, gan roi cyfle inni gydnabod cyfraniadau amrywiaeth eang o bobl i ddegawd o gynnydd.

Gan ddechrau o'r dechrau, rydym bellach wedi rhoi cymorth i awduron, cyfarwyddwyr a chynhyrchwyr rhagor na 50 o ffilmiau hir, a thrwy fentrau ym myd addysg, datblygu doniau, datblygu cynulleidfa, cymorth busnes a gweithredu cymunedol rydym wedi helpu i osod y sylfeini ar gyfer diwylliant ffilm deinamig ledled Cymru.

Y gwaith eleni fydd adeiladu momentwm a sicrhau bod pob menter yn cael effaith glir yn ystod un o'r cyfnodau mwyaf cyffrous a heriol yn hanes sinema.

Mae patrymau newydd o alw, cynulleidfaoedd yn darnio, y cyfryngau'n cydgyfeirio, technolegau sydd ymlaen bob amser / ar-alw a chynnydd aruthrol mewn ffyrdd i dreulio amser yn golygu nad yw aros yn llonydd yn opsiwn.

Mae'r newidiadau hynny yn fygythiad i fodelau busnes sydd wedi ennill eu plwyf ond, mewn gwirionedd, yr oedd gwendidau difrifol yn y dull traddodiadol o ystyried ffilm, yn arbennig o ran amrywiaeth, cyrhaeddiad a pherthnasedd i'r amrywiaeth lawn o gymunedau.

Ein hamcan yw datblygu economi clyweledol amrywiol, cynaliadwy a chystadleuol ac rydym yn edrych ar gyfleoedd o ddau safbwynt.

O safbwynt y gynulleidfa, byddwn yn parhau i ddatblygu cyrhaeddiad a chyswllt ffilmiau ar draws y wlad, yn arbennig rhai sy'n cael eu harwain gan ddoniau o Gymru. Mae'r adroddiad hwn yn gosod allan nifer o feysydd lle'r ydym yn cydweithio'n agos â phartneriaid i ymgysylltu go iawn â chynulleidfaoedd lle bynnag y maent yn byw.

O safbwynt cynhyrchu, rydym yn gweithio ar ddulliau arloesol o ddatblygu cynnwys y credwn sy'n cyd-fynd yn llwyr â'r agweddau real sy'n dod i'r amlwg yn yr economi digidol. Rydym wedi dwyn llawer o'r syniadau hyn ynghyd drwy gyfrwng yr hyn a alwn yn ddull Magnifier.

Y newid cyntaf fu dwyn doniau o Gymru ynghyd fel grŵp sy'n cydweithio, er mwyn iddynt ddysgu oddi wrth ei gilydd a'r data cronedig a grewyd drwy ein gwaith. Mae'r grwpiau'n cwrdd ar gamau cyntaf y gwaith o ddatblygu syniadau a strategaethau cynulleidfaoedd pan mae hynny'n gwneud y gwahaniaeth mwyaf.

Ac rydym yn datblygu prosiectau sy'n gweithio ar draws y cyfryngau, y celfyddydau ac addysg, gan arwain at bosibiliadau creadigol newydd yn ogystal â chynnig y cyfle i ddatblygu busnesau cynaliadwy sydd wir yn gwireddu potensial eu Heiddo Deallusol.

Mae hynny'n golygu annog yr arfer o ddatblygu asedau ehangach o amgylch ffilmiau: apiau a gemau, cyhoeddi llyfrau, addasiadau i'r teledu a'r llwyfan, nwyddau hyrwyddo, traciau sain, arddangosfeydd ffotograffig ac adnoddau addysgol.

Mae prosiectau yn tystio fwyfwy i botensial y dull ehangach hwn. Rhoesom gymorth i'r ffilm wyddonias lwyddiannus The Machine, sydd bellach wedi'i haddasu yn cyfres deledu ar gyfer sianel Syfy yn yr Unol Daleithiau, yn ogystal ag arwain at adnodd addysg Safon Uwch / Uwch Gyfrannol yng Nghymru.

A thrwy ffilm hir animeiddiedig Ethel & Ernest gan Raymond Brigg – a ddenodd 4.7m o wylwyr dros y Nadolig – cafwyd llwyfan hyfforddi i ddarpar-animeiddwyr ac adnodd addysg ar-lein a thrac sain.

Rydym yn dal i archwilio potensial dull Magnifier, ond rydym eisoes yn gweld arwyddion y gall helpu i fyd ffilm, yr arfer o greu ffilmiau a diwylliant ffilm yng Nghymru fod yn fwy agored nag erioed.

MICHAEL GUBBINS
**Cadeirydd**
Ffilm Cymru Wales



# CRYNODEB GWEITHREDOL

Wrth ddathlu deng mlwyddiant Ffilm Cymru Wales yn 2016, cawsom fyfyrio ar ddegawd lle y gwelwyd rhagor na 50 o ffilmiau yn cael eu creu gan wneuthurwyr ffilmiau yng Nghymru, sinemâu annibynnol yn cyrraedd rhagor nag 1,250,000 o bobl ledled Cymru, a rhagor na 30,000 o bobl ifanc yn cael eu hysbrydoli i ddysgu drwy addysg ffilm.

Eleni'n unig, gwelwyd rhagor na 1,200 o bobl ifanc yn elwa o brosiectau addysg ffilm a oedd yn mynd i'r afael â materion pwysig fel homoffobia, tlodi diwylliannol a chynrychiolaeth anabledd. Hefyd, llwyddodd sinemâu annibynnol a gwyliau ffilm i gyrraedd cynulleidfaoedd cynyddol eang ledled y wlad, gan fodloni ac ysgogi awch am ffilm y tu hwnt i'r ffilmiau mawr prif ffrwd.

Dros y degawd diwethaf, mae Ffilm Cymru Wales wedi grymuso doniau creu ffilm drwy gyfrwng bron i £6.8 miliwn mewn arian cynhyrchu; gan ddenu buddsoddiad rhyngwladol yn ein ffilmiau hyd llawn gyda chyllidebau sy'n gyfanswm o £54,444,720 a 15 o gytundebau cydgynhyrchu Ewropeaidd, gan ddangos bod yn y sector feddwl agored ac ymagwedd gydweithiol.

Yn ychwanegol at ein hymrwymiad i gynorthwyo a dathlu doniau o Gymru, mae'r cynyrchiadau a gynorthwywyd gennym wedi creu gwariant o £14,911,139 ac wedi cefnogi 844 o swyddi yng Nghymru, gydag 8 ffilm yn y Gymraeg. Mae ein cyllid hefyd wedi ategu Cronfa Llywodraeth Cymru ar gyfer Buddsoddi yn y Cyfryngau wrth gynorthwyo ffilm animeiddiedig deuluol *Ethel & Ernest*, a'r ffilm arswyd oruwchnaturiol, *Don't Knock Twice* – y ffilm fwyaf erioed i gael ei hariannu'n llwyr yng Nghymru. Gwelwyd hefyd ein buddsoddiadau mewn cwmnïau yng Nghymru yn bwydo i mewn i ecoleg ehangach Cymru lle mae'r rhai sy'n creu yn mynd ati i greu drachefn ym maes ffilm a theledu ac yn y cyfryngau a'r celfyddydau yn ehangach.

O'r ffilmiau dogfen llwyddiannus o safon fyd-eang, *Orion: The Man Who Would be King* a *Dark Horse*, i ffilmiau cyffro Cymraeg *Yr Ymadawiad / The Passing* a *Y Llyfrgell / The Library Suicides,* llwyddodd ffilmiau Cymru i ddenu sylw rhyngwladol eleni. Drwy gyfrwng y ffilmiau, aeth Cymru ar daith ledled y byd drwy wyliau a dosbarthu rhyngwladol, yn ogystal â chynnig sinema gymunedol foddhaus yng nghalon Cymru.

Yn sgil cymorth cynnar i ddoniau addawol, gwelwyd amrywiaeth eang o wneuthurwyr ffilm eisoes yn datblygu eu gyrfaoedd, wrth i awduron-gyfarwyddwyr fel Catherine Linstrum a Rungano Nyoni wneud naid o ffilmiau byr i ffilmiau hir gyda chefnogaeth BFI NET.WORK a Ffilm Cymru Wales. Ers lansio Menywod Mewn Ffilm yn haf 2015, gwelsom gynnydd sylweddol mewn ceisiadau gan fenywod sy'n wneuthurwyr ffilm, gan fynd â nifer y ceisiadau sy'n cael eu gyrru gan fenywod y tu hwnt i'n meincnod o gydbwysedd o 50/50 rhwng y rhywiau.

Lansiodd Ffilm Cymru Wales fenter arloesol newydd o ddatblygu ffilm a chynulleidfa – Magnifier. Cafodd ei llunio i fanteisio'n llawn ar werth syniadau, ac mae'r cysyniad yn annog gwneuthurwyr ffilm i archwilio cyfleoedd trawsgyfryngol, fel gêm rithwir arswydus Red and Black Films, sy'n gydymaith i'w ffilm arswyd sydd ar y ffordd cyn hir, *Don't Knock Twice*.

Gan ganolbwyntio ar y dyfodol, croesawn y sefydlogrwydd sy'n cael ei gynnig gan setliadau Llywodraeth Cymru gyda Chyngor Celfyddydau Cymru a strategaeth 2022 BFI, sy'n cydweddu'n dda â'n blaenoriaethau strategol. Byddwn yn parhau i ledaenu'r lens y tu hwnt i ffilm, gan edrych ar blatfformau ac asedau ehangach ac ymrwymiad parhaus i wella mynediad at ffilm i holl aelodau'r gymdeithas, gan gynnwys rhoi pwyslais ar genhedlaeth o wylwyr y dyfodol. Edrychwn ymlaen at bartneru â llawer o gydweithwyr amrywiol ar draws cymunedau ffilm, creadigol, y celfyddydau ac addysg er mwyn manteisio'n llawn ar y buddion cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd sydd i ffilm ar lefel leol a chenedlaethol.



# DATBLYGU

Eleni buddsoddodd Ffilm Cymru Wales dro chwarter miliwn o bunnoedd i feithrin doniau a darganfod lleisiau newydd amrywiol.

Dyfarnwyd arian i *Jasia*, animeiddiad stop-symudiad hyfryd ynglŷn â phlentyn amddifad ifanc sy'n ceisio dianc rhag erchyllterau Gwlad Pwyl yn ystod y rhyfel drwy fyd lliwgar o gerddoriaeth, syrcas a ffrindiau. Gyda rhaglun hudol i'ch denu, bydd y cyfarwyddwr, Magda Osinka, yn awr yn datblygu'r prosiect ymhellach ochr yn ochr â'r awdur o Gymru, John McNally, a'r cynhyrchydd Sarah Cox o Arthur Cox Ltd.

Buddsoddwyd mwy nag £20,000 yn y ffilm ddogfen gerddoriaeth newydd, *Rockfield*, gan gynhyrchydd *Separado!* ac *American Interior,* Catryn Ramasut. Cyfarwyddwyd y ffilm gan Hannah Berryman, a bydd y ffilm hir yn adrodd hanes rhyfeddol dau frawd a drodd eu fferm yng Nghymru i fod yn un o'r stiwdios recordio mwyaf llwyddiannus erioed, gan fod yn gartref i bedwar degawd o gerddoriaeth roc Prydain. Ar ôl recordio cyfweliadau cychwynnol â rhai o enwogion Rockfield, Led Zeppelin a Coldplay, bydd sêr adnabyddus fel Queen, Iggy Pop a Oasis hefyd yn ymddangos yn y ffilm.

Rhoddwyd cymorth datblygu hefyd i Mad As Birds Films, a greodd ddrama Dylan Thomas, *Set Fire to the Stars*, y llynedd, ar gyfer eu prosiect cyffrous newydd, *20th Century Boy*. Mae'r ffilm fywgraffyddol anarchaidd hon am yr Ardalydd ecsentrig o Gymru, Henry Cyril Paget, yn gyfuniad o ffilm gyffro hanesyddol â roc glam, wrth i'r aristocrat beiddgar wastraffu ei filiynau a gorfod ffoi rhag dyledwyr sydd ar ei ôl. Mae'r awdur Celyn Jones ar waith â datblygu sgript a gaiff ei chyfarwyddo gan Andy Goddard yn dilyn ei waith ar ffilm anhygoel *Marvel's Daredevil* ar Netflix.

Ymysg y cnwd o ffilmiau gwych sydd ar restr ddatblygu helaeth Ffilm Cymru Wales y mae'r animeiddiad teulol *Kensuke's Kingdom*, sy'n ddilyniant i *Ethel & Ernest* gan y cynhyrchydd Camilla Deakins a Jon Rennie. A bydd y gwneuthurwr ffilm o Gymru, Rob Alexander, yn ceisio manteisio ar ei lwyddiant ar ffilm ddogfen ar *Gary Numan: Android in La La Land*, gyda *Breath*, profiad arloesol amlsynhwyraidd sy'n archwilio'r berthynas sydd gennym â'n cyrff a'r blaned yr ydym yn byw ynddi drwy ffilm ddogfen ddi-eiriau a gosodiad rhyngweithiol.





# BFI NET.WORK CYMRU

Cafodd y rhaglen sy'n datblygu doniau creu ffilm newydd ac addawol ledled y Deyrnas Unedig flwyddyn brysur o weithdai, arddangosiadau doniau a dangosiadau ffilmiau, yn ogystal â'r cymorth ariannol a gyrfa wedi'i deilwra y mae'n ei roi i ddoniau newydd.

Mae cynhwysiant yn beth allweddol wrth nodi'r genhedlaeth newydd o wneuthurwyr ffilm, a bu BFI NET.WORK Cymru yn cydweithio â thrawstoriad eang o ddoniau o Gymru. Mae 61% o'r gwneuthurwyr ffilm y daethpwyd i gyswllt â hwy yn ystyried eu hunain yn fenywod, mae 32% yn siaradwyr Cymraeg, ac mae 18% yn ystyried eu hunain yn Ddu, Asiaidd a/neu Ethnigrwydd Lleiafrifol.* Hefyd, aeth 28 o gyfranogwyr digwyddiadau hyfforddiant y Launchpad eleni yn eu blaen i ddatblygu eu gyrfa ymhellach gyda chymorth elfennau cyllid a gweithgarwch BFI NET.WORK Cymru a Ffilm Cymru Wales.

Yn haf 2015, cynhaliwyd wythnos gyfan o ddigwyddiad Launchpad Menywod Mewn Ffilm yn y Barri, lle daeth menywod o Gymru sy'n wneuthurwyr ffilm addawol at ei gilydd i dderbyn hyfforddiant a mentora, a chymryd rhan mewn dosbarthiadau meistr, gweithdai a thrafodaethau. Roedd y mentoriaid yn cynnwys Desiree Akhavan, Destiny Ekaragha, Rebecca Johnson a Corinna McFarlane, a chyflwynwyd y brif araith gan Sadie Frost mewn dadl lawn a bywiog. Cyflwynwyd y digwyddiad mewn partneriaeth â Skillset Greadigol, CULT Cymru, BAFTA Cymru a'r Ymddiriedolaeth Ddarlledu Gymreig, gyda chymorth hael gan EON Productions Barbara Broccoli.

Cychwynnwyd ar gynhyrchu'r ffilmiau byr a ddewiswyd ar gyfer cynllun Beacons y flwyddyn flaenorol, gan gynnwys *The Truthful Phone*, ffilm ffantasi'r 'Grelmins Cymreig' gan Carl Rock a Katie Pow. Ffilm wedi'i haddasu o stori fer gan Terry Jones, Monty Python, ydyw, ac mae'n gomedi llawn creaduriaid, uchel ei chysyniad, a ddenodd gyllid ychwanegol drwy ymgyrch Kickstarter lwyddiannus cyn denu seren Hollywood, Michael Sheen fel adroddwr y stori.

Bu BFI NET.WORK Cymru yn gweithio mewn partneriaeth â Gŵyl Gwobr Iris ac S4C i gyflwyno Straeon Iris – cynllun ffilmiau byr sy'n cynorthwyo gwneuthurwyr ffilm LGBTQ a storïau yn y Gymraeg. Yn dilyn lansiad y cynllun yn yr Eisteddfod Genedlaethol, cyflwynwyd deg o gynigion, ac aeth dwy ffilm ymlaen i gael eu datblygu'n llawn. Dangoswyd y ffilm fuddugol yn nathliad deng mlwyddiant Gŵyl Gwobr Iris yn Hydref 2016.

Eleni lansiwyd cronfa newydd i ddatblygu cymunedau o gyd-gymorth, annog cyd-ddysgu, a hybu diwylliant arloesol a chynhwysol o greu ffilmiau. Mae Cronfa Connector yn gwahodd ceisiadau gan gydweithfeydd creu ffilmiau, gwyliau ffilmiau byr, grwpiau o awduron, rhwydweithiau mentora ac eraill i gynorthwyo gweithgareddau'n ymwneud ag amrywiaeth a mynd i'r afael â than-gynrychiolaeth ac arwahanrwydd daearyddol.

* Yn ôl cyfrifiad 2011, mae demograffeg BAME yn cyfrif am 4.4% o boblogaeth Cymru.

# C Y N H Y R C H I A D

Bu'n flwyddyn gref i ffilmiau Cymraeg, doniau addawol o Gymru a rhai sy'n gweithio ar draws platfformau.

Ac yntau'n adnabyddus am ei waith helaeth ar *Doctor Who, Broadchurch* a *Marvel's Daredevil*, aeth y cyfarwyddwr o Gymru, Euros Lyn, ati i ffilmio ei ffilm hir gyntaf *Y Llyfrgell / The Library Suicides* yn Aberystwyth. Addasiad o nofel arobryn Fflur Dafydd yw'r ffilm Gymraeg hon, ac mae'n adrodd hanes dialedd lle mae dwy efeilles yn gosod trap er mwyn dal llofrudd eu mam yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Enillodd seren y ffilm, Catrin Stewart, wobr am ei pherfformiad deuol, a chynhyrchwyd y ffilm drwy gynllun doniau addawol Ffilm Cymru Wales, Sinematig, mewn partneriaeth â BFI, BBC Films, S4C a Soda Pictures.

Darparwyd cymorth dosbarthu i *The Passing / Yr Ymadawiad*, yn bwrw ymlaen â'n hymrwymiad cynhyrchu blaenorol, gan ganiatáu i'r ffilm Gymraeg gythryblus hon greu cyswllt â chynulleidfaoedd newydd ledled Cymru a thu hwnt. Annes Elwy a Dyfan Dwyfor sy'n serennu fel dau gariad ifanc sy'n cael damwain car ym mynyddoedd anghysbell Cymru, a Mark Lewis Jones sy'n serennu fel y ffigwr dirgel sy'n mynd â nhw i'w fferm arunig. Ar ôl cydweithio ar y gyfres boblogaidd *Hinterland*, daeth yr awdur Ed Talfan a'r cyfarwyddwr Gareth Bryn yn ôl at ei gilydd i gydweithio ar y ddrama oruwchnaturiol drawiadol hon.

Gweithiodd Ffilm Cymru Wales mewn partneriaeth â chwmni datblygu gemau annibynnol Wales Interactive i gynhyrchu gêm sy'n gydymaith i ffilm arswyd ddiweddaraf Red and Black Films, *Don't Knock Twice*, a gaiff ei dosbarthu yn gynnar yn 2017. Mae'r gêm yn defnyddio technoleg rithwir arloesol i ymdrwytho'r chwaraewr ym myd brawychus y ffilm sy'n llawn gwrachod a chythreuliaid. Ffilm yw hon gan y rhai a greodd y ffilm wyddonias boblogaidd o Gymru, *The Machine*, a'r seren yw Katee Sackhoff, *Battlestar Galactica*.

Dyfarnwyd cyllid hefyd i Joe Ahearne, awdur *Trance*, ar gyfer ei ffilm hir gyntaf, *B&B,* sy'n sôn am sut y trodd penwythnos drygionus pâr hoyw mewn gwely a brecwast Cristnogol anghysbell yn waedlyd. Dyma ffilm hir gyntaf y cynhyrchydd teledu profiadol o Gymru, Jayne Chard. Cyd-ariannwyd y ffilm gyffro, hiwmor tywyll, hon gan Creative England ac Isabelle Georgeaux o Pont Neuf Productions.








# MAGNIFIER
## CHYMORTH I GWMNÏAU

Eleni, cynigwyd arian i bedwar cwmni ffilm yng Nghymru i ehangu eu capasiti a’u potensial i dyfu drwy ddyfarniadau Cymorth i Gwmnïau.

Buddsoddwyd £180,000 yng Nghynyrchiadau ie ie, Mad As Birds Films, Dogs of Annwn a Joio, gan gyfrannu at seilwaith cynaliadwy ac arloesol i’r diwydiant creadigol yng Nghymru. Bydd y cwmnïau ffilm a chyfryngau yn defnyddio’r arian hanfodol hwn i greu a chynnal swyddi, sefydlu swyddfeydd parhaol yng Nghymru, ac ehangu potensial trawsgyfryngol eu heiddo deallusol.

Rhoddodd Ffilm Cymru Wales gadarnhad o’i ymrwymiad i fanteisio’n llawn ar werth drwy lansio Magnifier yn 2015. Mae’r dull newydd a systematig hwn o ddatblygu yn helpu gwneuthurwyr ffilmiau i nodi a datblygu cynulleidfaoedd a ffrydiau refeniw drwy rannu gwybodaeth, arbrofi â modelau newydd, a dod yn rhan o rwydweithiau cynyddol o gymorth a chydweithio amlddisgyblaethol.

Mae arbenigwyr o bob rhan o’r gymuned ryngwladol o ddiwydiannau creadigol – gan gynrychioli byd ffilm, llenyddiaeth, gemau, y cyfryngau rhyngweithiol digidol, addysg, cysylltiadau cyhoeddus a rhagor – wedi ymuno â’n diwrnodau carfan deinamig, sy’n rhoi’r cyfle i wneuthurwyr ffilm gyflwyno eu prosiectau drwy gyfrwng gweithdai ac archwilio cyfleoedd ehangach i fanteisio’n llawn ar eu syniadau.

Mae dull Magnifier yn parhau drwy gydol camau datblygu prosiect ffilm, ac mae’r gwneuthurwyr ffilm yn asesu, rhannu a thrafod gwaith ymchwil ac astudiaethau achos drwy borthol Magnifier ar Hiive (rhwydwaith ar-lein proffesiynol Skillset Greadigol), a gwireddu’r potensial ehangach sydd i eiddo deallusol eu prosiectau a’u cyrhaeddiad o ran cynulleidfa, gyda model ariannu mwy hyblyg ac ymatebol gan Ffilm Cymru Wales.

# CYNULLEIDFAOEDD

Gyda chymorth parhaus Ffilm Cymru Wales, llwyddodd sinemâu annibynnol, canolfannau'r celfyddydau a gwyliau gyflwyno hyd yn oed yn rhagor o ffilmiau i gynulleidfaoedd newydd ledled Cymru.

Yn 2015-16, cynhaliodd lleoliadau sy'n derbyn cymorth FfCW 5,327 o ddangosiadau ffilm arbenigol, gan gyrraedd cynulleidfa o bron i 200,000, a gwerthiant tocynnau o dros £884,000. Hefyd, bu i gwyliau ffilm Cymru ddangos 290 o ffilmiau i ragor nag 19,300 o bobl, a phwysleisio cysylltiadau rhyngwladol drwy ymrwymiad WOW i Sinema'r Byd a rhwydweithiau cydweithio rhyngwladol Abertoir ac IRIS.

Rhoddwyd cyllid i saith o wyliau ffilm, gan gynnwys Abertoir, sef gŵyl ffilm arswyd ryngwladol Aberystwyth, a welodd 26% o gynnydd yn nifer y mynychwyr yn ystod yr wythnos o ddangosiadau ffilmiau hir a byr, perfformiadau theatr, arddangosfeydd celf, a phrofiad ffilm untro ymdrochol yng nghrombil ogof.

Gwelwyd twf hefyd yng Ngŵyl Ffilm LGBTQ Gwobr Iris 2015 wrth iddi fanteisio ar y ffaith ei bod yn cyd-daro â Chwpan Rygbi'r Byd. Gan fanteisio ar y cyfle hwn, cynhaliodd yr ŵyl seremoni agoriadol ar thema rygbi, gan ddangos ffilm ddogfen *Scrum* am Rygbi'r Gynghrair Hoyw Rhyngwladol. Mae Ffilm Cymru Wales yn falch o fod wedi cynorthwyo Gŵyl Gwobr Iris drwy gydol ei deng mlynedd, wrth i'r ddau sefydliad ddathlu eu deng mlwyddiant yn 2016.

Yr unig ŵyl i fynd â'i rhaglen ar daith o amgylch Cymru, gan ymweld â Chaerdydd, Abertawe, Aberystwyth a'r Wyddgrug, yw Gŵyl Ffilm Cymru a'r Byd yn Un (WOW), sy'n ymroddedig i ddangos y ffilmiau gorau o sinema'r byd i gynulleidfaoedd ledled y wlad. Yn gynnar yn 2016, derbyniodd yr ŵyl grant gan y Gronfa Loteri Fawr i ehangu ei Chlwb Ffilm i Fenywod, sy'n cynnig dangosiadau rheolaidd o ffilmiau'r byd i fenywod o gymunedau ethnig lleiafrifol, a rhai sydd wedi'u hallgáu o ddarpariaeth ddiwylliannol. Bydd y grant yn caniatáu i Glwb Ffilm i Fenywod WOW gyrraedd hyd yn oed rhagor o bobl, a hybu diwylliant cynhwysol drwy bŵer sinema.

A hwythau'n cynnig darpariaeth gyson drwy gydol y flwyddyn, rhannwyd bron i £100,000 o arian craidd rhwng 16 o sinemâu annibynnol a chanolfannau'r celfyddydau, gydag anogaeth gan Ffilm Cymru Wales i barhau i addasu eu modelau busnes, datblygu partneriaethau ehangach, ac ymgysylltu â chynulleidfaoedd sydd â diffyg gwasanaethau er mwyn tyfu gyda thirwedd gwylio ffilmiau sy'n esblygu o hyd.

Gan ganolbwyntio ar y dyfodol, mae canolfan gelfyddydol Galeri, sydd wedi'i leoli ar lan y Fenai yng Nghaernarfon, wedi cael cadarnhad ar gynlluniau i adeiladu ail sgrin sinema, gan gynnig cyfle ar gyfer rhaglenni a gweithgareddau addysgol ehangach. Bydd gwaith adeiladu'n cychwyn ym mis Ionawr 2017, gan anelu at agor yn gynnar yn 2018.










# ADDYSG

Yn 2015-16, rhannwyd £35,000 o gyllid addysg ffilm Ffilm Cymru Wales rhwng saith o brosiectau, gyda'r diben o ysbrydoli dysgu, cynnig cyfleoedd newydd, a hybu ymwybyddiaeth gymdeithasol a diwylliannol ymysg rhagor na 1,200 o gyfranogwyr.

. Cyflwynwyd dau o'r prosiectau hyn yn Gymraeg a Saesneg, a gweithiai prosiect arall drwy gyfrwng Somali, Urdu ac Iaith Arwyddion Prydain.

Bu i Ffilm Cymru Wales gynorthwyo Canolfan Cyfryngau Diwylliannol amlieithog Cymdeithas Tai Cymuned Caerdydd i ymgysylltu â chymunedau amlddiwylliannol Butetown, sy'n aml yn dioddef o amddifadedd economaidd-gymdeithasol a diffyg darpariaeth ddiwylliannol, drwy weithdai addysg a dangosiadau ffilm.

Dyfarnwyd arian hefyd i brosiect 'Newid y Ffocws' Celfyddydau Anabledd Cymru, a archwiliai sut caiff pobl fyddar ac anabl eu cynrychioli yn y cyfryngau. Bu cyfranogwyr o gefndiroedd amrywiol yn trafod darnau o ffilm cyn ystyried eu ffilmiau byr eu hunain sy'n mynd i'r afael â'r materion mwyaf perthnasol yn eu barn hwy. Caiff y ffilmiau hyn eu pecynnu a'u dangos mewn ysgolion ledled Cymru.

Roedd gweithgarwch allgymorth Gŵyl Ffilm Gwobr Iris eleni yn cynnwys cyhoeddi llyfrgell o wyth ffilm fer a gynhyrchwyd gan bobl ifanc sy'n ymdrin â bwlio'n ymwneud ag LGBT. Bu'r disgyblion ysgol uwchradd o bob rhan o Gymru, rai ohonynt ag anghenion dysgu ychwanegol, yn defnyddio comedi a drama i gyfleu eu neges o ddewrder a grymuso yn wyneb camdriniaeth homoffobig. Ariannwyd prosiect addysg allgymorth Iris gan Ffilm Cymru Wales, ar y cyd â Sefydliad Elusennol UIA a Google, ac mae'r ffilmiau ar gael i'w gwylio am ddim ar ein sianel YouTube.

# DYFARNIADAU CYLLIDO

## CYNHYRCHU

| FFILM | YMGEISYDD | DYFARNIAD |
|---|---|---|
| The Borneo Case | Truth Department | £25,000.00 |
| Denmark | Severn Screen | £200,000.00 |
| Orion (dosbarthu) | Truth Department | £7,500.00 |
| B&B | Hummingbird Films | £85,000.00 |
| Resolute | Ironbox Films | £150,000.00 |
| Don't Knock Twice (gêm) | Wales Interactive | £49,999.00 |
| My Grandfather the Spy | Shoot From the Hip | £20,000.00 |
| The Passing / Yr Ymadawiad (dosbarthu) | Severn Screen | £5,000.00 |
| CYFANSWM Y DYFARNIADAU CYNHYRCHU A RODDWYD | | £542,499 |

## CHYMORTH I GWMNÏAU

| GWMNÏ | DYFARNIAD |
|---|---|
| Cynhyrchiadau Ie Ie | £30,000.00 |
| Mad As Birds Films | £80,000.00 |
| Joio | £40,000.00 |
| Dogs of Annwn | £30,000.00 |

## DATBLYGU

| FFILM | YMGEISYDD | DYFARNIAD |
|---|---|---|
| The Existence of Liberty White | Milkwood Film Productions | £10,000.00 |
| Outlaws | Samuelson Productions | £15,000.00 |
| Rubbernecker | Chewing Monkey | £15,000.00 |
| 20th Century Boy | Mad As Birds | £20,000.00 |
| Atomfa | Truth Department | £10,000.00 |
| Destroying Angel | Catherine Linstrum | £12,500.00 |
| Breath | Perfect Motion | £17,000.00 |
| Rebellion | Niton Film | £20,000.00 |
| Playtime | Playtime Production | £12,000.00 |
| UN Project | Fly Film | £1,825.00 |
| The Emergents | Jamie King | £6,285.00 |
| Kinkaseki | Lookout Point | £20,000.00 |
| Rockfield | Ie Ie Productions | £20,250.00 |
| The Well / Fubar | Vox Pictures | £5,000.00 |
| Jasia | Arthur Cox | £18,000.00 |
| The Existence of Liberty White | Milkwood Film Productions | £2,000.00 |
| Momma Gonna Knock You Out | Bard Entertainment | £8,000.00 |
| Heart of Darkness | Gritty Realism | £11,000.00 |
| The Boy | Rosetta Productions | £18,000.00 |
| Kensuke's Kingdom | Jigsaw Films | £20,000.00 |
| CYFANSWM Y DYFARNIADAU DATBLYGU A RODDWYD | | £261,860 |

## GORWELION (BFI NET.WORK) DATBLYGIAD PROFFESIYNOL PARHAUS

| YMGEISYDD | DYFARNIAD |
|---|---|
| Jamie Adams | £3,000 |
| Claire Alberie DPP | £1,200 |
| Sam Connor DPP | £1,200 |
| Angharad Elen | £3,000 |
| Dave Evans | £1,136 |
| Dewi Gregory | £3,000 |
| Alex Ireson | £2,000 |
| Maria Morancho Mercy | £3,000 |
| Mathew Owen Natalie | £3,000 |
| Leyla Pope | £2,500 |
| CYFANSWM DYFARNIADAU DPP GORWELION A RODDWYD | £23,036 |

# DYFARNIADAU CYLLIDO

## PROSIECTAU GORWELION (BFI NET.WORK)

| PROSIECT | DYFARNIAD |
|---|---|
| Atomfa | £3,250 |
| Blue Monday / Suzanne Phillips CPD | £6,000 |
| Breaking Barriers | £6,000 |
| Echoes | £3,000 |
| Glaslyn | £3,000 |
| Heart Of Darkness | £3,000 |
| High Tide | £3,000 |
| I Am Not A Witch | £3,000 |
| Joe & Katie Are In A Relationship | £3,000 |
| Joe & Katie are In A Relationship (2nd Award) | £2,750 |
| Low Tide | £4,600 |
| My Grandfather The Spy | £6,000 |
| Revival | £3,000 |
| Rock & Roll Spirit | £3,000 |
| Superstar Bard | £1,600 |
| Thinking Cap (Gwobr 1af) | £3,000 |
| Thinking Cap (2il Wobr) | £2,000 |
| Youngun | £6,000 |
| Love Squared | £6,000 |
| Warmth | £6,000 |
| CYFANSWM DYFARNIADAU PROSIECTAU GORWELION A RODDWYD | £77,200 |

## SINEMÂU

| LLEOLIAD | DYFARNIAD |
|---|---|
| Chapter | £23,000.00 |
| Canolfan y Celfyddydau, Aberystwyth | £16,000.00 |
| Theatr Clwyd Cymru | £11,500.00 |
| Theatr Mwldan | £9,351.00 |
| Canolfan y Celfyddydau, Taliesin | £8,000.00 |
| Galeri Caernarfon | £3,000.00 |
| Canolfan y Celfyddydau, Wyeside | £3,500.00 |
| Theatr Torch | £2,200.00 |
| Canolfan y Celfyddydau, Pontardawe | £3,000.00 |
| Theatr Gwaun | £4,000.00 |
| Glan yr Afon, Casnewydd | £4,000.00 |
| Canolfan y Celfyddydau, Memo | £2,000.00 |
| Pafiliwn Pier Penarth | £2,000.00 |
| Neuadd Dwyfor, Pwllheli | £2,000.00 |
| Theatr Ucheldre | £2,000.00 |
| Y Neuadd Les, Ystradgynlais | £2,000.00 |
| CYFANSWM YR HOLL DDYFARNIADAU A RODDWYD I SINEMÂU | £97,551 |

# DYFARNIADAU CYLLIDO

## GWYLIAU

| GŴYL | YMGEISYDD | DYFARNIAD |
|---|---|---|
| Gŵyl Ffilm Abertoir | Canolfan y Celfyddydau, Aberystwyth | £15,000.00 |
| Cardiff Big Mini Film Festival | Bulldozer films | £2,500.00 |
| Hay Festival of British Cinema | Borderlines | £7,500.00 |
| Gwobr Iris | The Festivals Company | £9,000.00 |
| Gŵyl Ffilm PICS | The Wales Film Festival Youth Network | £5,500.00 |
| Gŵyl Ffilm Cymru a'r Byd yn Un | Wales One World | £9,000.00 |
| Gŵyl Ffilm Rhyngwladol Zoom Cymru | The Wales Film Festival Youth Network | £10,000.00 |
| CYFANSWM Y DYFARNIADAU A RODDWYD I WYLIAU | | £58,500 |

## ADDYSG

| PROSIECT | YMGEISYDD | DYFARNIAD |
|---|---|---|
| Changing the Focus | Celfyddydau Anabledd Cymru | £2,015.00 |
| The Welsh & The Tehuelche | Gritty Realism | £4,800.00 |
| Cultural Media Centre | Cymdeithas Tai Cymuned Caerdydd | £7,000.00 |
| Iris Education 2015/16 | The Festivals Company | £8,019.00 |
| Effect of Film-making in Design & Tech | LilyPad Films | £1,010.00 |
| LLamination | Play Radnor – Thumbs Up | £4,211.00 |
| Capture my Culture | Neuadd Les, Ystradgynlais | £5,000.00 |
| Changing the Focus (2$^{nd}$ award) | Celfyddydau Anabledd Cymru | £2,945.00 |
| CYFANSWM YR HOLL DDYFARNIADAU ADDYSG | | £57,844 |

CYFRIF INCWM A GWARIANT AR GYFER Y FLWYDDYN SY'N GORFFEN 31 MAWRTH 2015

| | 2016 (£) | 2015 (£) |
|---|---|---|
| Incwm | 1,989,464 | 2,102,111 |
| Treuliau Uniongyrchol | (1,383,651) | (2,078,611) |
| Gwarged Gros | 605,813 | 23,500 |
| Treuliau Gweithredu | (521,127) | (299,172) |
| Diffyg Ariannol Gweithredu | (84,686) | (275,672) |
| Llog Sy'n Dderbyniadwy | 609 | 767 |
| Diffyg ariannol ar weithgareddau arferol cyn trethiant | 85,295 | (274,905) |
| Treth ar warged ar weithgareddau arferol | (122) | (153) |
| Diffyg ariannol a gadwyd ar gyfer y flwyddyn ariannol | 85,173 | (275,058) |
| Gwarged a gadwyd ac a ddygir ymlaen | 434,446 | 709,504 |
| Gwarged a gadwyd ac a garir ymlaen | 519,619 | 434,446 |

| Mantolen ar 31 Mawrth 2016 | 2016 (£) | 2015 (£) |
|---|---|---|
| Asedau Sefydlog | | |
| Asedau Diriaethol | 8,775 | 13,896 |
| Asedau Cyfredol | | |
| Stociau | 1,650 | 1,650 |
| Dyledwyr | 8836,681 | 854,682 |
| Arian parod yn y banc ac mewn llaw | 1,136,156 | 1,428,301 |
| Credydwyr: symiau'n ddyledus o fewn un flwyddyn | (1,463,643) | (1,864,083) |
| Asedau cyfredol net | 510,844 | 420,550 |
| Asedau Net | 519,619 | 434,446 |
| Cronfeydd wrth gefn | | |
| Incwm a Gwariant | 434,446 | 709,504 |
| Cronfeydd eraill wrth gefn | 85,173 | (275,058) |
| Cronfeydd yr aelodau | 519,619 | 434,446 |

# CRYNODEB ARIANNOL





ffilm CYMRU WALES

| | |
|---|---|
| Prif Weithredwr | PAULINE BURT |
| Cynorthwy-ydd Gweithredol & Cynhyrchydd Digwyddiadau | ANGHARAD WILLIAMS |
| Gweinyddwr | BETHANY LANE |
| Rheolwr Cyfathrebu a Digwyddiadau | BEN HOOPER |
| Pennaeth Datblygu Sector Creadigol | HANNAH THOMAS |
| Rheolwr Cynhyrchu a Phrosiectau Arbennig | ADAM PARTRIDGE |
| Rheolwr NET.WORK Talent | TRACY SPOTTISWOODE |
| Swyddog Gweithredol Datblygu | KIMBERLEY WARNER |
| Cydlynydd Talent | TESSA HUGHES |
| Pennaeth Cynulleidfa, Addysg ac Adfywio Dros Dro | GAVIN JOHNSON |
| Rheolwr Cynulleidfa, Addysg ac Adfywio | NICOLA MUNDAY |
| Rheolwr Cyllid | GAIL REED |
| Gweinyddwr Cyllid | MICHELLE GREEN |

www.ffilmcymruwales.com

ffilm CYMRU WALES



CANOLFAN GYFRYNGAU S4C
PARC TŶ GLAS
LLANISHEN
CAERDYDD
CF14 5DU

+44 (0)2920 766931

enquiries@ffilmcymruwales.com

www.ffilmcymruwales.com

BFI Film Forever

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Supported by
**The National Lottery®**
through the Arts Council of Wales

Cefnogwyd gan
**Y Loteri Genedlaethol**
trwy Gyngor Celfyddydau Cymru